Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Llanfyllin

**Llanfyllin**
**Powys**
**SY22 5BJ**

**Dyddiad yr arolygiad: Mawrth 2024**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg**

**a Hyfforddiant yng Nghymru**

# Ynglŷn ag Ysgol Llanfyllin

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Llanfyllin |
| Awdurdod lleol | Cyngor Sir Powys |
| Iaith y darparwr | dwyieithog |
| Math o ysgol | Ysgol pob oed |
| Cymeriad crefyddol | * |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 777 |
| Nifer y disgyblion o oedran ysgol statudol | 653 |
| Nifer mewn dosbarthiadau meithrin | |
| Nifer yn y chweched dosbarth | 103 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector Ysgolion pob oed yw 21.6%) | 14.4% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector Ysgolion pob oed yw 11.0%) | 16.2% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg yn y cartref | 32.5% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 0.9% |
| Dyddiad y penodwyd y pennaeth | 01/09/2020 |
| Dyddiad yr arolygiad Estyn blaenorol (os yw'n berthnasol) | |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad hwn | 11/03/2024 |
| Dyma'r arolygiad cyntaf o Ysgol Llanfyllid ar ôl uno Ysgol Gynradd Llanfyllin ac Ysgol Uwchradd Llanfyllin ym mis Medi 2020. | |

Daw'r data hwn o ddata mwyaf diweddar y Cyfrifiad Ysgol Blynyddol ar Lefel Disgybl. Efallai y byddant ychydig yn wahanol i'r hyn a arsylwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae gwybodaeth ychwanegol ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol: Fy Ysgol Leol (llyw.cymru)

a. Mae'r term 'anghenion addysg arbennig' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio disgyblion sydd ar gofrestr AAA yr ysgol.

## Trosolwg

Ers ei ffurfio yn 2020, mae arweinwyr wedi llwyddo i sefydlu cymuned glòs a datblygu ethos o 'deulu' Ysgol Llanfyllin, ar sail bod yn un ysgol. Mae staff yn cydweithio'n dda â'i gilydd i ddeall anghenion lles disgyblion ac, yn benodol, yn darparu'n addas ar gyfer y rhai mwyaf bregus. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda a'u bod yn ddiogel o ganlyniad i'r ymagwedd hon.

Mae athrawon a staff cymorth yn meithrin perthnasoedd gwaith cadarnhaol â disgyblion. Mewn ychydig o achosion, lle mae'r addysgu ar ei gryfaf, mae athrawon yn sicrhau rhediad priodol i'r dysgu ac mae ganddynt ddisgwyliadau uchel. Mae mwyafrif yr athrawon yn cynllunio'n addas i fodloni anghenion disgyblion, yn rhoi esboniadau clir ac yn gwirio cynnydd yn rheolaidd. Mewn lleiafrif o achosion, lle nad yw'r addysgu yr un mor gryf, nid oes gan athrawon ddisgwyliadau digon uchel ac nid ydynt yn cynnig her addas. Yn gyffredinol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion o oed cynradd yn gwneud cynnydd addas o ran datblygu eu medrau a'u dealltwriaeth. Mae mwyafrif y disgyblion oed uwchradd yn gwneud cynnydd priodol. Fodd bynnag, mewn lleiafrif o achosion, mae diffygion yn yr addysgu, yn enwedig yn y cyfnod uwchradd, yn arwain at ddisgyblion yn ymddieithrio rhag eu dysgu ac yn gwneud llai o gynnydd nag y dylent. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn y chweched dosbarth yn gwneud gynnydd cadarn ac yn dangos agweddau hynod gadarnhaol tuag at eu dysgu.

Mae'r ysgol yn cynnig cwricwlwm priodol o eang a chytbwys ac yn bodloni anghenion unigol yn dda, ar y cyfan. Mae wedi gweithio'n adeiladol ar ei gweledigaeth ar gyfer Cwricwlwm i Gymru, a adwaenir fel y cwricwlwm 'Tyfu'. Mae hyn wedi'i rannu'n eang ac yn cael ei ddeall yn dda gan y rhan fwyaf o staff. Yn ddiweddar, mae'r ysgol wedi cryfhau ei hymagwedd at gydlynu darpariaeth i ddatblygu medrau disgyblion yn gynyddol. Ar hyn o bryd, nid yw hyn wedi'i ymwreiddio'n ddigon da ar draws yr ysgol.

Mae'r pennaeth yn darparu arweinyddiaeth sicr a gofalus, sydd wedi'i thanategu gan ddiben moesol cryf. Ochr yn ochr â'r uwch dîm arweinyddiaeth, maent yn parhau i ddatblygu diwylliant ysgol pob oed. Mae arweinwyr wedi creu diwylliant diogelu cryf ar draws yr ysgol ac wedi sicrhau bod disgyblion yn teimlo'n ddiogel a'u bod yn cael eu cefnogi, yn gyffredinol. Fodd bynnag, nid yw'r arweinyddiaeth wedi cael digon o effaith ar ansawdd yr addysgu, yn enwedig yn y cyfnod uwchradd. Er bod gan arweinwyr ddealltwriaeth gadarn o'r prif gryfderau a'r meysydd i'w gwella yn narpariaeth yr ysgol, nid ydynt yn canolbwyntio'n ddigon manwl ar effaith darpariaeth ar ddysgu ac ymddygiad disgyblion i werthuso ei heffaith.

## Argymhellion

A1 Mynd i'r afael â'r diffygion yn yr addysgu a nodwyd yn yr adroddiad hwn i wella dysgu a chynnydd disgyblion

A2 Gwella cynllunio i ddatblygu medrau disgyblion yn gynyddol

A3 Mireinio prosesau hunanwerthuso i ganolbwyntio’n fanwl ar effaith addysgu ar gynnydd disgyblion

A4 Sicrhau bod staff yn rhoi strategaethau ymddygiad ar waith yn gyson

## Beth sy’n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy’n dangos sut y bydd yn mynd i’r afael â’r argymhellion. Bydd Estyn yn cydweithio â’r awdurdod lleol i adolygu cynnydd yr ysgol.

## Prif werthusiad

### Dysgu

Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd addas ac yn datblygu eu medrau’n briodol o’r adeg y maent yn dechrau yn y dosbarth derbyn a thrwy’r cyfnod cynradd. Yn y cyfnod uwchradd, mae mwyafrif y disgyblion yn gwneud cynnydd addas, o leiaf, yn eu gwybodaeth a’u dealltwriaeth ac, mewn ychydig o achosion, mae disgyblion yn gwneud cynnydd cryf. Mae lleiafrif o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cyfyngedig naill ai oherwydd eu hagweddau gwael at ddysgu, ymddygiad amharchus neu ddiffygion yn yr addysgu. Mae llawer o ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yn gwneud cynnydd cadarn yn erbyn eu targedau.

Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn y cyfnod cynradd yn galw dysgu blaenorol i gof yn dda. Er enghraifft, mae disgyblion ym Mlwyddyn 3 a 4 yn cyfeirio’n ôl at ffeithiau a ddysgwyd am ‘Y Llwyn’ i ysgrifennu sgript ar gyfer rhaglen ddogfen am yr adfeilion. Mae llawer o ddisgyblion oed uwchradd yn galw gwaith blaenorol i gof yn addas, tra mae’r mwyafrif ohonynt yn cymhwyso gwybodaeth flaenorol yn briodol i sefyllfaoedd newydd. Mewn ychydig o achosion, nid yw disgyblion yn gallu galw ffeithiau a gwybodaeth a gyflwynwyd yn ddiweddar i gof yn gadarn ac nid ydynt yn cymhwyso eu dysgu yn ddigon da.

Mae gan lawer o ddisgyblion yn y dosbarthiadau dysgu sylfaen fedrau siarad a gwrando da ar gyfer eu cam datblygu. Maent yn trafod materion ag oedolion yn hyderus ac yn gallu esbonio’r tasgau maent yn eu cwblhau. Erbyn diwedd Blwyddyn 2, mae llawer o ddisgyblion yn siarad Cymraeg yn ddigymell ag oedolion, er enghraifft i wneud ceisiadau neu ddisgrifio newid yn y tywydd. Erbyn Blwyddyn 6, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn siarad Cymraeg a Saesneg yn glir ac yn esbonio eu hunain yn dda. Mae ychydig o ddisgyblion yn dangos medrau siarad a gwrando cryf, er enghraifft wrth ddynwared galwad ffôn rhwng rhywun sy’n gwerthu tŷ a rhywun sy’n prynu tŷ.

Mewn ychydig o sesiynau yn y cyfnod uwchradd, mae bron pob un o’r disgyblion yn gwrando’n astud ac yn ymateb yn briodol i’r athrawon a’u cyfoedion. Mae’r rhan fwyaf ohonynt yn sgwrsio am eu gwaith yn Saesneg ac yn gofyn cwestiynau perthnasol. Yn y sesiynau hyn, mae mwyafrif y disgyblion yn rhannu eu syniadau a’u safbwyntiau’n

frwdfrydig. Mae ychydig ohonynt yn rhoi ymatebion llafar difyr ac ystyriol gan ddefnyddio geirfa gymharol soffistigedig. Yn y ffrwd cyfrwng Cymraeg, mae ychydig o ddisgyblion yn siarad Cymraeg yn helaeth a heb anogaeth ac mae'r mwyafrif ohonynt yn siarad Cymraeg yn hyderus heb gael eu hannog gan yr athro.

O oed cynnar, mae llawer o ddisgyblion yn datblygu dealltwriaeth addas o lythrennau a'r seiniau maent yn eu cynrychioli. Mae'r disgyblion ieuengaf yn mynd i'r afael â geiriau anghyfarwydd yn hyderus ac mae ganddynt ddealltwriaeth dda o'r strategaethau sydd eu hangen i ddeall eu hystyr. Wrth iddynt symud drwy'r cyfnod cynradd, mae llawer o ddisgyblion yn dangos rhuglder da wrth ddarllen; er enghraifft, maent yn darllen y cwestiynau parod ar gynnwys fideo am Ysgolion Fictoraidd a'r 'Welsh Not' yn hyderus. Mae lleiafrif o ddisgyblion yn darllen llyfrau heriol iawn y maent yn dewis eu hunain. Dangosant wydnwch wrth fynd i'r afael â geirfa anghyfarwydd ond, ar adegau, maent yn ansicr ynghylch ffyrdd o ddehongli ystyr. Mae llawer o ddisgyblion yn mwynhau darllen ac yn gallu siarad am eu llyfrau'n hyderus.

Mae llawer o ddisgyblion yn y cyfnod uwchradd yn cipddarllen a llithrddarllen amrywiaeth o destunau'n llwyddiannus i ddod o hyd i wybodaeth berthnasol i ymateb i'r cwestiwn sy'n cael ei ofyn gan yr athro. Mae mwyafrif y disgyblion yn defnyddio rhesymu a chasglu mewn testunau mwyfwy heriol i gryfhau eu dealltwriaeth. Mae disgyblion mwy abl yn dehongli gwybodaeth ac yn dod i'w casgliadau eu hunain yn dda. Mae ychydig o ddisgyblion yn dangos ymwybyddiaeth ddatblygol o sut mae ysgrifenwyr, fel Maya Angelou, yn creu naws ac awyrgylch trwy ddefnyddio geirfa. Pan gânt y cyfle, mae ychydig o ddisgyblion yn darllen ar goedd yn hyderus i'w cyfoedion ac yn gwneud hynny ag eglurder, cywirdeb a rhuglder. Mae mwyafrif y disgyblion yn darllen barddoniaeth â dealltwriaeth gadarn, sy'n eu helpu i wneud cymariaethau ystyrlon, yn ôl y gofyn. Mae llawer ohonynt yn dadansoddi barddoniaeth Gymraeg yn effeithiol gan gyfeirio at effaith dyfeisiau llenyddol. Fodd bynnag, nid yw lleiafrif o ddisgyblion yn defnyddio ystod ddigonol o strategaethau darllen i gefnogi eu dysgu mewn pynciau gwahanol.

Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu eu medrau ysgrifennu'n briodol yn y cyfnod cynradd. Mae mwyafrif y disgyblion dysgu sylfaen yn datblygu llawysgrifen weddol ddarllenadwy ac, erbyn Blwyddyn 2, mae disgyblion yn dechrau ysgrifennu'n fwyfwy hyderus ac â chywirdeb priodol. Erbyn Blwyddyn 6, mae llawer ohonynt yn cymhwyso eu medrau ysgrifennu'n briodol yn Gymraeg a Saesneg, er enghraifft wrth gyflwyno gwybodaeth am famaliaid gwahanol. Yn y cyfnod uwchradd, mae llawer o ddisgyblion yn ysgrifennu mewn ystod briodol o ffurfiau ar draws y pynciau. Maent yn ysgrifennu darnau o destun ffeithiol sydd wedi'u strwythuro'n briodol ac yn defnyddio termau pwnc cywir, er enghraifft i esbonio nodweddion cell planhigyn. Mae gan lawer o ddisgyblion ddealltwriaeth glir o ddiben eu hysgrifennu, ond nid oes gan y lleiafrif ohonynt ymdeimlad cadarn o gynulleidfa. Yn aml, gwnânt ddewisiadau anghywir o ran iaith ac nid yw eu hysgrifennu yn cynnwys y naws gywir. Mae lleiafrif o ddisgyblion yn gwella elfennau o'u gwaith ysgrifenedig yn llwyddiannus ar ôl cael adborth gan athrawon. At ei gilydd, nid yw medrau ysgrifennu disgyblion yng nghyfnod allweddol 3 wedi'u datblygu'n ddigon da. Nid yw disgyblion yn prawfddarllen eu gwaith ysgrifenedig yn ddigon aml ac mae lleiafrif ohonynt yn parhau i wneud gwallau sylfaenol o ran sillafu a gramadeg.

Yn y chweched dosbarth, mae llawer o ddisgyblion yn galw dysgu blaenorol i gof yn dda ac yn gwneud cynnydd cadarn. Yn aml, gwnânt gyfraniadau hyderus, croyw mewn trafodaethau mewn grwpiau bach, er enghraifft wrth drafod The Tempest gan Shakespeare. Mae llawer o ddisgyblion yn meddwl yn ofalus ac yn gwneud cysylltiadau synhwyrol rhwng cysylltiadau, er enghraifft wrth archwilio'r berthynas rhwng systemau gwasgedd uchel a gwasgedd isel ar raddfa fawr yn yr hinsawdd a phatrymau llystyfiant mewn daearyddiaeth. Defnyddiant derminoleg pwnc gymhleth, yn ôl y gofyn, i ymateb i dasgau a chwestiynau. Maent yn ysgrifennu'n gynhwysfawr ac â chywirdeb technegol cadarn at amrywiaeth o ddibenion.

Mae disgyblion yn datblygu eu medrau rhifedd yn dda yn y cyfnod cynradd. Mae bron pob un o'r disgyblion o oed dysgu sylfaen yn cyfrif yn hyderus i 20 ac mae llawer ohonynt yn cyfrif i 100 mewn 10au yn gadarn. Mae llawer o ddisgyblion ym Mlwyddyn 4 yn defnyddio medrau rhif yn briodol i ddatrys heriau mathemategol ac mae disgyblion Blwyddyn 5 a 6 yn dangos medrau ymresymu mathemategol da. Mae rhai ohonynt yn hyderus wrth ddangos ffyrdd gwahanol o ddatrys yr un cwestiwn. Erbyn diwedd Blwyddyn 6, mae mwayfrif o ddisgyblion yn cymhwyso eu medrau data yn briodol, gan lunio sylwebaeth addas ar y prif bwyntiau sy'n cael eu dangos yn y data.

At ei gilydd, mae llawer o ddisgyblion oed uwchradd yn dangos medrau rhif sy'n briodol i'w hoed, fel rheol rhif, gwerth lle, adio a thynnu ffracsiynau syml a chyfrifo cyfartaleddau. Mae'r disgyblion hyn yn dangos y gallu i gymhwyso eu gwybodaeth a'u medrau'n gywir yn annibynnol. Mae llawer ohonynt yn dangos medrau trin data addas, fel casglu, cyflwyno a dehongli data. Mae mwyafrif y disgyblion yn datblygu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o fedrau mesur priodol. Dangosant hyder wrth ymgymryd â thasgau rhifedd sylfaenol y tu allan i wersi mathemateg. Mewn ychydig o bynciau, mae llawer ohonynt yn llunio graffiau'n fanwl ac yn eu dehongli'n gywir, er enghraifft mewn gwyddoniaeth wrth ymchwilio i ddadfeiliad ymbelydrol. Mae llawer ohonynt yn trosi unedau'n llwyddiannus wrth gael y graddfeydd a'r cymarebau perthnasol.

Mae disgyblion yn datblygu eu medrau digidol yn briodol o oed cynnar. Pan gânt gyfle, mae'r disgyblion ieuengaf yn defnyddio llechen gyfrifiadurol yn annibynnol i dynnu lluniau o'u gwaith ac yn dechrau arbrofi â phecynnau meddalwedd gwahanol. Erbyn Blwyddyn 3, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio prosesydd geiriau'n hyderus i ysgrifennu am yr ardal leol, gan fewnfudo delweddau priodol o'r rhyngrwyd. Erbyn diwedd Blwyddyn 6, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cymhwyso eu medrau digidol yn effeithiol yn eu gwaith ar draws y cwricwlwm mewn ystod eang o gyd-destunau. Er enghraifft, maent yn creu modelau 3D manwl o dirnodau enwog yng Nghymru. Mae bron pob un o'r disgyblion yn siarad yn hyderus am bwysigrwydd cadw'n ddiogel ar-lein.

Ar draws cwricwlwm y cyfnod uwchradd, mae llawer o ddisgyblion yn datblygu eu medrau digidol yn addas. Er enghraifft, mewn gwersi Saesneg, mae disgyblion yn dylunio tudalennau gwe i lansio cynhyrchion newydd. Maent yn mewnosod delweddau a fideos ac yn cyflwyno tudalennau lliwgar a difyr. Defnyddiant ystod o feddalwedd yn hyderus, er enghraifft i gyfansoddi sgoriau cerddorol, golygu delweddau a chreu fideos sy'n cynrychioli propaganda'r rhyfel. Mewn mathemateg a gwyddoniaeth, mae llawer o ddisgyblion yn datblygu eu medrau codio yn briodol, er enghraifft wrth reoli dronau. Maent hefyd yn credu cronfeydd data yn llwyddiannus ac yn dechrau archwilio dylunio drwy gymorth cyfrifiadur yn eu gwersi technoleg.

Mae llawer o ddisgyblion yn y ffrwd Saesneg yn y cyfnod cynradd yn datblygu eu medrau Cymraeg yn briodol. Defnyddiant eiriau Cymraeg yn addas, er enghraifft i archebu eu cinio. Yn y cyfnod uwchradd, mae gan fwyafrif y disgyblion yn y ffrwd Saesneg ddealltwriaeth glir o eiriau thematig sylfaenol ac maent yn eu cyfieithu'n effeithiol. Mae lleiafrif ohonynt yn ysgrifennu'n estynedig gan ddefnyddio strwythurau brawddegau syml. Fodd bynnag, yn gyffredinol, ychydig iawn o Gymraeg y mae disgyblion yn y ffrwd Saesneg yn ei defnyddio mewn sgyrsiau â'u hathrawon a'u cyfoedion.

Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu eu medrau corfforol yn addas ac yn mwynhau cymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgarwch corfforol. Mae'r disgyblion ieuengaf yn datblygu eu medrau echddygol manwl a bras yn dda, er enghraifft wrth gydbwyso cwpanau papur yn ofalus neu gloddio pryfed genwair i fwydo'r adar. Mae disgyblion hŷn yn dangos cydsymudiad da a medrau technegol cryf yn ystod gwersi addysg gorfforol.

At ei gilydd, mae llawer o ddisgyblion yn datblygu medrau creadigrwydd addas wrth astudio gwaith artistiaid enwog, gan arbrofi â lliw ac arddull. Mae disgyblion oed cynradd yn defnyddio cerddoriaeth a dawns mewn meysydd gwahanol o'r cwricwlwm, er enghraifft wrth ddysgu tablau lluosi. Mewn gwersi drama, mae llawer o ddisgyblion yn dangos medrau creadigol cryf, er enghraifft i greu perfformiadau dyfeisiedig, byr gan ddefnyddio ffurfiau gwahanol.

Mewn lleiafrif o feysydd ar draws y cwricwlwm, mae disgyblion yn datblygu medrau meddwl a datrys problemau gwerthfawr. Er enghraifft, mae'r disgyblion ieuengaf yn meddwl yn ofalus am sut i wneud swm arian mewn ffyrdd gwahanol â darnau arian gwahanol ac mae disgyblion hŷn yn meddwl am gwestiynau i'w gofyn i gymeriad ac yn cymryd tro i ateb y cwestiynau hynny fel y cymeriad.

**Lles ac agweddau at ddysgu**

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn mwynhau'r ysgol ac yn teimlo'n rhan o 'Deulu Llanfyllin'. Mae ethos yr ysgol, sef 'dysgu gyda'n gilydd, tyfu gyda'n gilydd', wedi llwyddo i feithrin cymuned lle mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi a'u bod yn ddiogel.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn y cyfnod cynradd yn gwrtais a moesgar ac yn dangos parch tuag at athrawon, eu cyfoedion ac ymwelwyr. Mae hyn yn wir am lawer o ddisgyblion yn y cyfnod uwchradd, wrth iddynt ddilyn cyfarwyddiadau, gwrando ar eu cyfoedion a chaniatáu i ddisgyblion eraill gyfrannu yn ystod trafodaethau grŵp neu mewn parau. Mewn ychydig o achosion, mae disgyblion yn ymateb yn feddylgar i gyfraniadau ei gilydd, er enghraifft mewn gwersi hanes wrth drafod effaith colera ar gymdeithas yn ystod cyfnod diwydiannol Prydain.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn y cyfnod cynradd yn frwdfrydig dros eu dysgu, yn dangos diddordeb mewn gweithgareddau ac yn awyddus i ddysgu, er enghraifft wrth ymarfer eu patrymau brawddegau Cymraeg wrth chwarae rôl. Maent hefyd yn gwrando'n dda ar eu hathrawon, yn cydweithio'n dda â'u cyfoedion ac yn dangos lefelau uchel o annibyniaeth mewn llawer o'r gweithgareddau maent yn ymgymryd â nhw.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn y cyfnod uwchradd yn cyrraedd gwersi'n brydlon ac yn ymdawelu mewn modd pwyllog a threfnus. Maent yn deall diben gwobrau, rheolau a chosbau. Fodd bynnag, mae lleiafrif o ddisgyblion yn y cyfnod uwchradd yn oddefol neu'n dangos agwedd wael at ddysgu. Nid ydynt yn dangos llawer o ddiddordeb yn eu gwaith, yn canolbwyntio nac yn dyfalbarhau. Mae ychydig o ddisgyblion yn dangos ymddygiad aflonyddgar a herfeiddiol sy'n gallu effeithio ar eu dysgu nhw a dysgu disgyblion eraill, er enghraifft peidio â gwrando'n barchus ar esboniadau neu beidio ag ymateb yn gadarnhaol i gyfarwyddiadau gan yr athro.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion y cyfnod cynradd yn ymateb yn dda i adborth llafar gan eu hathrawon a phan gânt gyfle, mae mwyafrif y disgyblion yn y cyfnod uwchradd yn ymgysylltu'n dda ag adborth gan eu hathrawon. O ganlyniad, mae'r disgyblion hyn yn parhau ar dasg mewn gwersi ac yn gwella eu gwybodaeth, dealltwriaeth a medrau.

Mae cyfraddau cyfranogiad mewn gweithgareddau allgyrsiol yn arbennig o uchel mewn clybiau chwaraeon. Yn gyffredinol, mae disgyblion yn datblygu dealltwriaeth addas o bwysigrwydd gweithgarwch corfforol. Hefyd, mae gan ddisgyblion ddealltwriaeth gadarn o sut i wneud dewisiadau iach.

Mae disgyblion yn elwa ar ysgwyddo a chymryd rhan mewn rolau arweinyddiaeth mewn grwpiau amrywiol ar draws yr ysgol. Er enghraifft, mae cymryd rhan yn y Clwb Eco a'r grŵp codi arian 'Elusennol' wedi arwain at ddisgyblion yn gallu datblygu eu hymwybyddiaeth o gysyniadau fel democratiaeth, tegwch a chydraddoldeb yn addas. Mae'r grwpiau hyn hefyd wedi gwneud penderfyniadau moesegol gwybodus yn ymwneud â chynaliadwyedd a hawliau plant ac wedi dylanwadu ar benderfyniadau strategol yn yr ysgol, er enghraifft ymgyrchu dros leihau plastigion untro a chyfleusterau gwella ar gyfer amser hamdden. Caiff disgyblion ag ADY a'r rhai sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim eu cynrychioli'n deg ar y grwpiau hyn.

Y llynedd, roedd cyfradd presenoldeb yr ysgol yn uwch nag ysgolion tebyg. Roedd presenoldeb disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim ymhell uwchlaw'r cyfartaledd cenedlaethol. Mae cyfradd yr absenoldebau cyson ymhell islaw'r cyfartaledd cenedlaethol. Mae lefelau presenoldeb wedi gwella hyd yn hyn yn ystod blwyddyn academaidd 2023-2024 ac maent yn agosach at y lefelau cyn y pandemig na'r hyn a welir yn genedlaethol.

Mae disgyblion yn y chweched dosbarth yn teimlo eu bod yn cael cymorth da iawn gan eu hathrawon. Maent yn elwa ar ystod eang o gyfleoedd sydd ar gael iddynt. Er enghraifft, maent yn ymgymryd â rolau arweinyddiaeth fel swyddogion neu'n cymryd rhan mewn gweithgareddau fel teithiau rhyngwladol, profiad gwaith, prosiect Seren a Gwobr Dug Caeredin. O ganlyniad, gallant ddatblygu'n ddysgwyr uchelgeisiol, galluog. Mae'r disgyblion hyn yn dangos agweddau cadarnhaol iawn at ddysgu. Maent yn sylwgar, yn mynd ati i ddysgu'n ddiwyd ac yn gofyn cwestiynau i ddatblygu eu gwybodaeth, dealltwriaeth a medrau ymhellach.

## Addysgu a phrofiadau dysgu

Mae bron pob un o'r athrawon a'r staff cymorth yn meithrin perthnasoedd gwaith cadarnhaol â disgyblion. Mae staff yn cyfarch disgyblion wrth iddynt ddod i mewn i'r dosbarthiadau ac yn eu hannog i ymdawelu'n gyflym. Yn y cyfnod cynradd, mae'r

amgylchedd dysgu yn bwrpasol ac yn ddifyr. Yn y grwpiau oedran ieuengaf, mae athrawon yn defnyddio'r ystafelloedd dosbarth a'r ardal y tu allan i gyflwyno profiadau diddorol ac ysbrydoledig sy'n annog chwilfrydedd ac annibyniaeth. Mae bron pob un o'r athrawon yn defnyddio'r 'Wal Dyfu' i fodelu'r camau nesaf mewn dysgu yn effeithiol. O ganlyniad, mae disgyblion yn dechrau dangos mwy o ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r hyn y mae angen iddynt ei wneud i wella eu gwaith. Mewn ychydig o achosion yn y cyfnod uwchradd, mae athrawon yn defnyddio cysyniad y 'Wal Dyfu' yn bwrpasol. Fodd bynnag, mae'r defnydd o'r ymagwedd hon yn anghyson.

Mewn ychydig o achosion, mae'r addysgu'n arbennig o effeithiol. Yn yr achosion hyn, mae athrawon yn defnyddio eu dealltwriaeth o gynnydd disgyblion i deilwra eu hesboniadau o gysyniadau newydd. Yn y cyfnod cynradd, mae athrawon yn cyflwyno mynegiant mwyfwy aeddfed, er enghraifft wrth fodelu geirfa ar gyfer tasgau ysgrifennu darbwyllol. Yn y cyfnod uwchradd, mae ychydig o athrawon yn annog disgyblion i ddefnyddio terminoleg gymhleth ac sy'n benodol i'r pwnc yn dda. Mae'r athrawon hyn yn defnyddio technegau holi gwahanol yn effeithiol, gan herio disgyblion i gyfiawnhau eu hatebion a'u barn, er enghraifft wrth drafod achosion a chanlyniadau'r 'Blits'. Yn y sesiynau hyn, mae athrawon yn sicrhau bod rhediad priodol i'r sesiynau ac yn symud dysgu ymlaen mewn modd amserol, gan sicrhau bod pob un o'r disgyblion yn ymroi i'w tasgau.

Ym mwyafrif y sesiynau, mae gan athrawon ddisgwyliadau addas a dealltwriaeth briodol o'r hyn y gall disgyblion ei wneud. Maent yn ystyried dysgu blaenorol disgyblion ac yn rhoi esboniadau a chyfarwyddiadau clir. Mae'r athrawon hyn yn gwirio'n rheolaidd i sicrhau bod disgyblion wedi deall gofynion y dasg ac yn symud ymlaen yn llwyddiannus. Maent yn ymyrryd mewn modd sensitif, yn cynnig arweiniad yn ôl y gofyn ac yn egluro camsyniadau mewn modd amserol. Mae ychydig ohonynt yn defnyddio technegau modelu yn feddylgar i rannu'r hyn sy'n cael ei ddisgwyl â disgyblion. Er enghraifft, maent yn defnyddio clipiau fideo i ddangos medrau llafaredd effeithiol wrth baratoi sgript a gwnânt ddefnydd effeithiol o'r 'Wal Dyfu' i ddangos sut olwg sydd ar dasgau ysgrifennu llwyddiannus.

Mae mwyafrif yr athrawon yn rhoi adborth llafar defnyddiol ac amserol. Maent yn cylchu'r dosbarth yn effeithiol, gan gynorthwyo disgyblion â'u gwaith. Maent yn nodi camgymeriadau neu gamsyniadau ochr yn ochr â'r disgybl ac yn cynnig arweiniad defnyddiol ar sut i wella. Mae mwyafrif yr athrawon yn rhoi adborth defnyddiol i ddisgyblion ar eu gwaith ysgrifenedig, sy'n caniatáu iddynt ddeall yr hyn y maent wedi'i wneud yn dda neu sut a ble y mae angen iddynt wneud gwelliannau. Yn yr achosion hyn, mae disgyblion yn cyfoethogi cynnwys ac ansawdd eu gwaith yn llwyddiannus, er enghraifft pan fyddant yn myfyrio'n feddylgar ar yr hyn y mae'r athro wedi'i nodi trwy'r dull adborth 'melyn meddwl'. Yn y cyfnod cynradd yn benodol, mae athrawon a chynorthwywyr addysgu yn cydweithio'n dda â'i gilydd i gefnogi dysgu disgyblion a rheoli eu hymddygiad yn effeithiol.

Mewn lleiafrif o achosion, lle mae'r addysgu'n llai effeithiol, nid oes gan athrawon ddisgwyliadau digon uchel o ddisgyblion, nid ydynt yn cynllunio'u gwersi'n ddigon da ac nid ydynt yn addasu eu haddysgu i fodloni anghenion disgyblion yn ddigon da. Nid yw'r athrawon hyn yn cynnig lefel addas o her i ddisgyblion ac nid ydynt yn ymyrryd yn effeithiol pan na fydd disgyblion yn cadw at y dasg. Nid yw rhediad y sesiynau hyn yn cyd-fynd â rhediad y dysgu yn ddigon da. Yn aml, nid yw'r athrawon hyn yn defnyddio cwestiynau treiddgar i ddwysáu dealltwriaeth a datblygu medrau meddwl

disgyblion. Nid yw adborth lleiafrif o athrawon yn helpu disgyblion i wella eu gwybodaeth neu eu medrau'n ddigon da. Yn rhy aml, nid yw athrawon yn dilyn gweithdrefnau asesu cytûn yr ysgol nac yn rhoi digon o amser i ddisgyblion fyfyrio ar eu dysgu a gwella eu gwaith eu hunain. Mae diffygion yn yr addysgu yn fwy cyffredin yn y cyfnod uwchradd. Mae'r rhain yn arwain at leiafrif o ddisgyblion yn ymddieithrio ac yn dangos agweddau gwael at ddysgu, fel diffyg canolbwyntio neu ymdrech. Mewn ychydig o achosion, caiff y problemau eu gwaethygu gan ddulliau aneffeithiol o reoli'r dosbarth sy'n arwain at ddisgyblion yn dod yn aflonyddgar. O ganlyniad, mae lleiafrif o ddisgyblion yn y cyfnod uwchradd yn gwneud cynnydd cyfyngedig yn y sesiynau hyn.

Mae'r ysgol yn sicrhau bod rhieni a gofalwyr yn wybodus iawn am gynnydd eu plentyn, er enghraifft trwy nosweithiau rhieni ac adroddiadau interim a llawn. Mae adroddiadau i rieni yn cynnwys gwybodaeth gryno am gyflawniad a chynnydd eu plentyn, ynghyd ag ysgrifau portread defnyddiol yn y cyfnod cynradd a chyngor defnyddiol ar sut i wella.

Mae'r ysgol yn cynnig cwricwlwm eang a chytbwys i ddisgyblion ac yn darparu ar gyfer eu hanghenion unigol, yn gyffredinol. Yng nghyfnod allweddol 4, mae ystod werthfawr o gymwysterau ar gael, gan gynnwys adeiladu, celfyddyd gain a BTEC mewn chwaraeon. Yn y chweched dosbarth, mae'r ysgol yn cydweithio'n effeithiol ym mhartneriaeth 'Trisgol' ag ysgolion lleol, gan gynnwys ystod o gyrsiau academaidd a galwedigaethol trwy wersi wyneb-yn-wyneb neu ddysgu ar-lein. Caiff disgyblion eu cynorthwyo'n dda i wneud dewisiadau gwybodus ar gyfer eu dyfodol. Mae hyn yn cynnwys cyngor defnyddiol gan ymgynghorwyr gyrfa a siaradwyr allanol ynghylch llwybrau dysgu penodol. Ar ben hynny, mae disgyblion Blwyddyn 11 yn elwa ar weithgareddau yn y 'Ganolfan Chweched' a sioe deithiol gyrfaoedd.

Mae'r ysgol wedi gweithio'n greadigol i lunio ei gweledigaeth ar gyfer Cwricwlwm i Gymru, sef y cwricwlwm 'Tyfu'. Mae wedi rhannu'r weledigaeth hon yn briodol â rhanddeiliaid ac mae'n cydweithio'n agos ag ysgolion cynradd partner. Mae arweinwyr yn gwerthfawrogi pwysigrwydd gweithio'n ddychmygus ac yn gydweithredol ar draws y cyfnodau gan archwilio profiadau dysgu dilys perthnasol. Mae disgyblion yn elwa ar ddysgu am eu cynefin, er enghraifft wrth archwilio mythau a chwedlau Cymreig yn y cyfnod cynradd a chestyll Cymru yn y cyfnod uwchradd.

Ar hyn o bryd, nid oes gan yr ysgol ymagwedd gydlynol tuag at ddatblygu medrau disgyblion yn gynyddol. O ganlyniad, nid oes digon o gyfleoedd ystyrlon i ddisgyblion ddatblygu eu medrau mewn pynciau gwahanol.

Mae rhaglen les yr ysgol yn cynnig cwricwlwm sy'n briodol i'w hoedran sydd o fudd i bob disgybl. Mae gweithgareddau'n cynnwys sesiynau iechyd a lles addas, gwasanaethau â thema a sgyrsiau gan siaradwyr allanol. Caiff disgyblion gyfleoedd defnyddiol i ennill dealltwriaeth o hanes a phrofiadau cymunedau Pobl Ddu, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig. Yn ogystal, ceir cyfleoedd defnyddiol i ddisgyblion ystyried safbwyntiau yn ymwneud ag amrywiaeth a chynhwysiant ar draws pob cyfnod.

Mae gan yr ysgol ymagwedd addas at ddatblygu gwerthfawrogiad disgyblion o ddiwylliant Cymru trwy amrywiaeth o weithgareddau. Mae hyn yn cynnwys y Criw Cymraeg, sy'n llysgenhadon cryf ac yn ymfalchïo mewn hyrwyddo'r Gymraeg a diwylliant Cymru ar draws yr ysgol gyfan. Mae'r ysgol yn cynnig cyfleoedd addas i

ddisgyblion yn y ffrwd cyfrwng Cymraeg ddatblygu eu gafael ar yr iaith Gymraeg. At ei gilydd, nid yw staff yn annog disgyblion yn y ffrwd Saesneg yn ddigon da i ddefnyddio'r Gymraeg.

Mae'r ysgol yn darparu rhaglen briodol o gyfleoedd allgyrsiol i ddisgyblion yn ystod ac ar ôl oriau ysgol. Yn ogystal, mae athrawon yn cynllunio amrywiaeth o ymweliadau addysgol a gweithgareddau cyfoethogi sy'n ategu'r cwricwlwm. Mae'r rhain yn cynnwys ymweliadau â mannau lleol o ddiddordeb hanesyddol, fel Ffynnon Sant Myllin, cydweithio â chyflogwyr adeiladu lleol, ac ymweliadau tramor.

### Gofal, cymorth ac arweiniad

Mae ethos teuluol Ysgol Llanfyllin wrth wraidd pob agwedd ar ei darpariaeth les. Mae staff yn cydweithio â'i gilydd i sefydlu dealltwriaeth ddofn o anghenion lles disgyblion, yn enwedig y rhai mwyaf bregus a difreintiedig.

Mae staff yn adnabod eu disgyblion yn dda ac yn deall eu rolau o ran cadw disgyblion yn ddiogel. Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu ac amddiffyn plant yn gadarn. Mae'r staff wedi cael hyfforddiant addas cyfredol ac maent yn glir ynghylch yr holl weithdrefnau diogelu. Mae'r ysgol yn ymateb yn brydlon i bryderon yn ymwneud â diogelu ac yn cydweithio'n agos ag asiantaethau allanol. Mae staff yn ymdrin yn addas â'r ychydig iawn o achosion o fwlio. Yng nghanolfan lles y 'Ganolfan Teulu', mae staff yr ysgol yn gweithio'n dda mewn partneriaeth ag asiantaethau allanol i gynnig pecyn cynhwysfawr o gymorth pwrpasol i ddisgyblion. Mae hyn yn cynnwys darparu cwricwlwm amgen i'r disgyblion mwyaf bregus.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau cadarn i fonitro presenoldeb. Mae staff yn defnyddio ystod o ymyriadau'n llwyddiannus i gefnogi ychydig iawn o ddisgyblion sydd â phresenoldeb isel i fynychu'r ysgol yn fwy rheolaidd. Mewn lleiafrif o achosion, nid oes gan athrawon ddisgwyliadau digon uchel o ran ymddygiad disgyblion ac maent yn gweithredu strategaethau rheoli ymddygiad yn anghyson. O ganlyniad, mae ymddygiad gwael ychydig o ddisgyblion yn y cyfnod uwchradd yn aml yn tarfu ar eu dysgu nhw a dysgu disgyblion eraill.

Mae'r ysgol wedi cymryd camau addas tuag at roi'r Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) ar waith. Mae'r cydlynydd anghenion dysgu ychwanegol dros dro yn frwd dros ei rôl and mae wedi gwneud cynnydd cadarn o ran mapio darpariaeth a sefydlu systemau i fesur cynnydd disgyblion ag ADY yn erbyn eu mannau cychwyn unigol. Fodd bynnag, dim ond megis dechrau y mae'r prosesau hyn. Mae'r tîm ADY yn cynnig ystod o ymyriadau gwerthfawr i gynorthwyo'r rhai sydd â'r medrau llythrennedd a rhifedd gwannaf ac mae staff cymorth yn ymyrryd yn sensitif ac yn effeithiol i hwyluso dysgu mewn gweithgareddau dosbarth. Mae cynlluniau datblygu unigol, sy'n cynnwys gwybodaeth werthfawr am y ffordd orau i gefnogi disgyblion, yn cael eu rhannu'n addas â staff. Nid yw'r wybodaeth hon yn cael eu defnyddio'n ddigon pwrpasol i gynllunio ar gyfer anghenion disgyblion ac, o ganlyniad, nid yw ychydig o ddisgyblion yn cael eu cynorthwyo'n llawn yn eu cynnydd.

Mae gan yr ysgol drefniadau effeithiol a sicr i gefnogi disgyblion wrth iddynt ddechrau yn yr ysgol neu symud i'r cam nesaf yn eu haddysg. Mae'r trefniadau ar gyfer cefnogi disgyblion wrth iddynt bontio o'r cyfnod cynradd ac ysgolion cynradd partner eraill i

Flwyddyn 7 yn gryf. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn teimlo eu bod yn ymgartrefu'n dda ac yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi fel rhan o gymuned yr ysgol. Mae'r ysgol yn darparu cymorth cynhwysfawr i ddisgyblion ym Mlynyddoedd 9, 11 a'r chweched dosbarth i wneud dewisiadau gwybodus yn ymwneud â'u gyrfa yn y dyfodol. Mae'r ysgol yn cydweithio'n dda â phartneriaid allanol, fel Gyrfa Cymru, i baratoi disgyblion ar gyfer cyfleoedd yn y byd gwaith.

Mae'r ysgol yn cynnig digon o gyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu dealltwriaeth o'u datblygiad cymdeithasol ac emosiynol drwy ystod o raglenni sy'n briodol i'w hoedran. Mae'r rhain yn ymdrin â phynciau fel dathlu gwahaniaethau a pherthnasoedd iach. Mae staff yn cydweithio'n effeithiol ag amrywiaeth o asiantaethau allanol, gan gynnwys yr heddlu, i sicrhau bod y materion yr eir i'r afael â nhw yn gyfredol ac yn ymateb i anghenion disgyblion.

Mae arweinwyr wedi dylunio ystod o weithgareddau teilwredig i alluogi disgyblion i ystyried a thrafod amrywiaeth o faterion sy'n effeithio ar eu hiechyd a lles. Yn y sesiynau hyn, mae disgyblion yn myfyrio'n bwrpasol ar ddata o holiaduron iechyd yn ymwneud â'u blaenoriaethau iechyd a lles cyfredol. O ganlyniad, mae gan ddisgyblion ddealltwriaeth gadarn o sut i wneud dewisiadau iach o ran eu ffordd o fyw. Mae gwasanaethau ysgol gyfan ar-lein, sy'n hygyrch i rieni, yn cynnig cyfle gwerthfawr i fyfyrio ar faterion moesol a moesegol a dathlu llwyddiannau. Caiff y rhain eu defnyddio'n bwrpasol i ymwreiddio ethos teuluol yr ysgol.

Mae'r ysgol yn gwerthfawrogi barn disgyblion ac yn hwyluso datblygiad medrau arweinyddiaeth disgyblion yn dda. Trwy ystod eang o fforymau, fel y cyngor ysgol a'r Criw Cymraeg, caiff disgyblion gyfleoedd i gydweithio a gweithio fel tîm er lles yr ysgol a'r gymuned. Mae arweinwyr yn annog cynrychiolaeth deg o gymuned yr ysgol yn y grwpiau hyn yn weithredol ac, o ganlyniad, mae ystod eang o ddisgyblion ar draws pob cyfnod wedi dylanwadu'n llwyddiannus ar agweddau ar fywyd yr ysgol.

Caiff ystod addas o weithgareddau allgyrsiol ac ymweliadau addysgol eu darparu ar gyfer disgyblion. Cânt gyfleoedd gwerthfawr i gymryd rhan mewn perfformiadau a digwyddiadau. Er enghraifft, mae disgyblion Blwyddyn 5 a 6 ynn cyflwyno dehongliadau o chwedlau o Gymru ac Wganda, gyda chymorth gan storïwr lleol. Mae llawer o ddisgyblion yn elwa ar gymryd rhan mewn perfformiadau cerddorol, fel y cynhyrchiad diweddar o 'Matilda'.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth

Mae'r pennaeth yn darparu arweinyddiaeth gadarn sydd wedi'i thanategu gan ddiben moesol cryf. Caiff ei gefnogi'n frwdfrydig gan weddill yr uwch dîm arweinyddiaeth. Gyda'i gilydd, maent yn parhau i feithrin diwylliant ysgol pob oed sydd wedi'i gefnogi gan ethos sydd wedi'i ymwreiddio'n gadarn mewn gofalu am les disgyblion. Mae arweinwyr wedi gwneud cyfraniadau gwerthfawr at ddatblygu'r cwricwlwm Tyfu ac ansawdd yr addysgu yn y cyfnod cynradd. Fodd bynnag, nid yw arweinwyr wedi cael digon o effaith ar ansawdd yr addysgu a datblygu medrau disgyblion yn gynyddol, yn enwedig yn y cyfnod uwchradd.

Cydweithiodd arweinwyr yn agos â disgyblion a chymuned ehangach yr ysgol i nodi gweledigaeth glir ar gyfer Ysgol Llanfyllin, sef 'Dysgu gyda'n gilydd, tyfu gyda'n gilydd'. Mae'r weledigaeth hon yn ganolog i waith yr ysgol.

Mae rôl a chyfrifoldebau uwch arweinwyr yn glir ac yn deg. Mae ymddiriedaeth a pharch proffesiynol cryf o fewn yr uwch dîm arweinyddiaeth. Fodd bynnag, nid yw arweinwyr ar lefelau uwch a chanol, yn y drefn honno, yn cael eu dwyn i gyfrif yn ddigon cadarn bob tro am ansawdd yr addysgu a'r dysgu yn eu meysydd cyfrifoldeb.

Mae arweinwyr canol yn dangos ymrwymiad clir i'r ysgol ac maent yn gadarnhaol am eu gwaith. Mae ganddynt ddealltwriaeth ddatblygol o'u rolau a'u cyfrifoldebau, ynghyd â pherthnasoedd gwaith cadarnhaol â'u rheolwyr llinell, y maent yn teimlo eu bod yn cynnig cymorth defnyddiol a her addas ganddynt. Fodd bynnag, mae gallu arweinwyr canol i werthuso addysgu a dysgu yn eu meysydd cyfrifoldeb yn rhy amrywiol ac, yn aml, yn rhy gadarnhaol. Nid yw'n glir sut mae uwch arweinwyr yn cefnogi ac yn datblygu arweinwyr canol i wella'r agweddau hyn. Mae trefniadau i reoli perfformiad staff yn addas ond, yn aml, mae diffyg trylwyredd digonol wrth adolygu targedau ac ystyriaeth addas o effaith yr addysgu ar ddysgu disgyblion.

Mae pwyslais clir ar flaenoriaethau cenedlaethol diogelu a lleihau effaith tlodi ar gyrhaeddiad addysgol. Mae arweinwyr wedi creu diwylliant diogelu cryf ar draws yr ysgol. Caiff disgyblion eu cefnogi'n effeithiol felly mae'r rhan fwyaf ohonynt yn teimlo'n ddiogel ac yn gwybod ble i fynd i ofyn am gymorth. Caiff y grant datblygu disgyblion ei ddefnyddio'n dda i fynd i'r afael â heriau penodol. Mae gwerthusiad o effaith y cyllid hwn yn nodi'n glir sut mae wedi cefnogi gwelliannau ym mhresenoldeb a chyrhaeddiad disgyblion.

Mae arweinwyr wedi cyflwyno cylch addas o weithgareddau hunanwerthuso sydd wedi'u seilio ar gasglu tystiolaeth uniongyrchol. Maent yn sicrhau bod cysylltiadau defnyddiol rhwng y gweithgareddau hyn a blaenoriaethau cyfredol yr ysgol. Yn gyffredinol, mae gan arweinwyr ddealltwriaeth addas o gryfderau trosfwaol yr ysgol a'r meysydd i'w gwella. Mae arweinwyr yn gofyn am farn disgyblion ac yn addasu darpariaeth, fel y bo'n briodol, er enghraifft trwy gyflwyno sesiynau coginio yn y cyfnod cynradd. Yn ddiweddar, mae llywodraethwyr wedi dechrau elwa ar gyfleoedd i ymweld â'r ysgol yn fwy rheolaidd i drafod cynnydd yr ysgol yn erbyn blaenoriaethau.

Mae arweinwyr yn dechrau cael effaith ar wella addysgu trwy gyflwyno disgwyliadau cyffredin ar draws yr ysgol, fel yr ymagwedd ddefnyddiol 'Tyfu Gyda'n Gilydd' i gefnogi dilyniant medrau. Fodd bynnag, nid yw prosesau tebyg yn cael effaith gyson ar wella addysgu a'r safonau y mae disgyblion yn eu cyflawni. Mae hyn oherwydd nad yw diffygion mewn addysgu sy'n cael eu nodi yn ystod gweithgareddau gwerthuso yn arwain at gamau gweithredu penodol ar gyfer gwella bob tro, gyda llinellau atebolrwydd clir. Yn ogystal, nid yw arweinwyr yn canolbwyntio'n ddigonol ar ddysgu ac ymddygiad disgyblion i werthuso effaith y ddarpariaeth.

Mae'r ysgol yn darparu ystod briodol o gyfleoedd dysgu proffesiynol i staff sy'n cyd-fynd yn addas â blaenoriaethau ysgol gyfan ac yn cefnogi anghenion unigol. Er bod dysgu proffesiynol wedi cael effaith gadarnhaol mewn sawl maes, fel cefnogi lles disgyblion ac ymagweddau at Gwricwlwm i Gymru, nid yw wedi cefnogi gwelliannau mewn agweddau eraill ar waith yr ysgol, fel gallu arweinwyr canol i werthuso ansawdd yr addysgu ar sail ei effaith ar ddysgu.

Mae diwylliant cryf o ymddiriedaeth rhwng uwch arweinwyr a'r llywodraethwyr, sy'n gefnogwyr balch ac ymrwymedig i'r ysgol. Cânt eu hysbysu'n dda am gynnydd yr ysgol ac, fel cyfeillion beirniadol, maent yn darparu lefel briodol o her ar faterion sy'n

cynnwys ansawdd yr addysgu a'r dysgu a sut mae'r ysgol yn mynd i'r afael â blaenoriaethau cenedlaethol. Mae eu hamcanion presennol yn cynnwys sefydlu ateb hirdymor ac ariannol hyfyw sy'n mynd i'r afael â'r angen am ddarpariaeth ddwyieithog o fewn fframwaith Cwricwlwm i Gymru. Mae llywodraethwyr yn sicrhau bod trefniadau priodol ar waith i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

Mae llywodraethwyr, y pennaeth a'r rheolwr busnes yn sicrhau y caiff gwariant ei ddefnyddio'n ofalus ac yn bwrpasol. Er mwyn ymateb i'r heriau ariannol a ragwelir yn y dyfodol, mae'r corff llywodraethol yn gwbl gefnogol o'r angen am newid a'r posibilrwydd ar gyfer atebion radical.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, mae arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiaduron i rieni a disgyblion, ac yn ystyried barn athrawon a'r corff llywodraethol trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, mae arolygwyr fel arfer:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol (lle bo hynny'n briodol) ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco, lle bo hynny'n briodol
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion, lle bo'n briodol
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol, lle bo'n briodol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda mae'r ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, mae Estyn:

- yn adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (http://www.estyn.gov.wales/)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: http://www.estyn.llyw.cymru/

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

© Hawlfraint y Goron 2024: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad Cyhoeddi: 16/05/2024